addysg i bawb

Profiadau pobl ifanc hoyw yn ysgolion Prydain

# YR ADRODDIAD YSGOL

Stonewall CYMRU

**YR ADRODDIAD** YSGOL

addysg i bawb

# Profiadau pobl ifanc hoyw yn ysgolion Prydain

gan Ruth Hunt a Johan Jensen

Cynhaliwyd yr arolwg a chasglwyd y canlyniadau gan Uned Addysg Iechyd Ysgolion

Diolch i:

**Ian McKellen**

www.stonewall.org.uk/educationforall

Nid oes lle ar gyfer bwlio homoffobaidd yn ein hysgolion uwchradd. Tra bod yn rhaid i ni gydnabod ei fod yn bodoli, ni allwn eistedd yn ôl. Rhaid i ni gydweithio er mwyn ymateb i'r problemau cyfredol, a gosod mesurau ataliol er mwyn ei rwystro rhag digwydd yn y dyfodol.

Rwyf wrth fy modd, felly, bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi medru gweithio gyda Stonewall Cymru i gynhyrchu Yr Adroddiad Ysgol. Mae'r adroddiad yn un diddorol iawn.

Mae'r canfyddiadau yn rhoi darlun ysgytwol o fwlio homoffobaidd ledled y DG, o ddiffyg cefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n cael eu bwlio, a'r effeithiau niweidiol posibl ar y rhai sy'n dioddef.

Ar y llaw arall, mae'r adroddiad yn dangos yn glir, mewn ysgolion lle bo cefnogaeth yn bodoli, gydag ethos cadarnhaol o barch, bod lleihad sylweddol yn nifer yr achosion o fwlio homoffobaidd.

Mae'n bwysig i ni adeiladu ar ganfyddiadau Yr Adroddiad Ysgol. Lle nad yw ysgolion yn gwneud cyfiawnder â'r bobl ifanc hyn, mae angen i ni sicrhau bod y materion yn cael eu datrys, a bod ysgolion yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol i ddatblygu a gweithredu diwylliant cadarnhaol a pharchus, yn rhydd rhag bwlio homoffobaidd.

**Jane Hutt AC** Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

# Cyflwyniad

Sefydlwyd Stonewall fel ymateb i gyflwyno Adran 28 Deddf Llywodraeth Leol 1988, a oedd yn gwahardd awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr rhag "hyrwyddo" cyfunrywioldeb. Achosodd bodolaeth Adran 28 lawer o niwed. Er nad oedd yn uniongyrchol berthnasol i ysgolion, roedd dros bedwar o bob pum athro dan yr argraff honno. Roeddent wedi drysu am yr hyn yr oedd modd iddynt ei ddweud a'i wneud, gan effeithio ar eu gallu i ddysgu am faterion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn y dosbarth a hyd yn oed i herio bwlio homoffobaidd.

Yn 2002, nodwyd yn glir yng nghanllaw 'Addysg Rhyw a Pherthynas mewn Ysgolion' (2002) Cynulliad Cymru nad oedd Adran 28 yn atal "trafodaethau gwrthrychol o gyfunrywioldeb" yn y dosbarth, ac yn 2003 diddymwyd Adran 28 o'r diwedd wedi nifer o flynyddoedd o ymgyrchu gan Stonewall ac eraill. Yn 2006, penderfynodd Stonewall ddarganfod sut brofiad yw bywyd ysgol mewn gwirionedd i bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol ym Mhrydain yr 21ain ganrif. Cynhaliwyd arolwg o dros 1100 o'r bobl ifanc hynny, yr arolwg mwyaf o'i fath erioed yn y wlad hon.

Mae'r canlyniadau yn frawychus. Mae bron i ddwy ran o dair o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn ysgolion uwchradd wedi dioddef bwlio homoffobaidd. Mewn ysgolion ffydd, mae'r ffigwr hwnnw yn codi i dri o bob pedwar. Mae iaith homoffobaidd yn endemig mewn ysgolion, ac yn amlach na pheidio mae athrawon yn cau eu llygaid. Dywed saith o bob deg o'r bobl ifanc hyn bod y bwlio yn effeithio ar eu gwaith ysgol. Mae eu hanner wedi cadw draw o'r ysgol er mwyn osgoi'r bwlio. Mae hyn er gwaethaf rheidrwydd cyfreithiol clir ar yr ysgol i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei amddiffyn rhag niwed yn yr ysgol.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn deffro pawb sy'n gweithio ym myd addysg. Mae Stonewall yn gwybod bod nifer o athrawon am gefnogi pobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ond eu bod yn teimlo nad oes ganddynt yr offer i wneud hynny, neu eu bod yn poeni na fyddant yn cael eu cefnogi gan uwch gydweithwyr os fyddant yn gwneud yr ymdrech.

Dengys yr adroddiad hwn nad yw'n anodd gwneud gwahaniaeth. Mewn ysgolion lle bo disgyblion yn cael eu dysgu'n glir bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol, mae'r nifer o achosion o fwlio o'r fath yn gostwng yn sylweddol. Drwy ymgyrch Addysg i Bawb Stonewall, gwyddom fod rhai ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn dechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Mae'n hanfodol i bawb ym myd addysg, o'r Adran dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i ysgolion unigol, weithredu'n gywir. Oherwydd yn y pen draw mae cyfleoedd bywyd cannoedd o filoedd o bobl ifanc yn y fantol.

Yn Stonewall Cymru rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael y cyfle i gyflawni eu llawn botensial. Dengys yr ymchwil hwn faint o waith sydd i'w wneud cyn i'r diwrnod hwnnw wawrio.

**Liz Morgan**
Cyfarwyddydd, Stonewall Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 2 |
| Canfyddiadau Allweddol | 3 |
| Sut beth yw bwlio homoffobaidd? | 4 |
| Pwy sy'n bwlio? | 6 |
| Ymatebion i fwlio homoffobaidd | 7 |
| Y canlyniadau ar gyfer disgyblion lesbiaidd a hoyw | 10 |
| Beth sy'n gweithio'n dda | 14 |
| Argymhellion | 16 |

# 1 Crynodeb

Mae bwlio homoffobaidd bron yn epidemig yn ysgolion Prydain. Mae bron i **ddwy ran o dair** (65 y cant) o ddisgyblion ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi dioddef bwlio uniongyrchol. Mae **saith deg pump y cant** o bobl ifanc hoyw sy'n mynychu ysgolion ffydd wedi dioddef bwlio homoffobaidd.

Hyd yn oed os nad yw disgyblion hoyw yn dioddef bwlio yn uniongyrchol, maent yn dysgu mewn amgylchedd lle mae iaith a sylwadau homoffobaidd yn gyffredin. Mae **naw deg wyth y cant** o bobl ifanc hoyw yn clywed y geiriau "mae mor gay" neu "ti mor gay" yn yr ysgol, ac mae dros **bedair rhan o bump** yn clywed sylwadau o'r fath yn aml neu'n gyson.

**Mae naw deg saith y cant** o ddisgyblion yn clywed sylwadau sarhaus homoffobaidd eraill, megis "pwff", "dyke", "rug-muncher", "queer" a "bender". Mae dros **saith o bob deg** o ddisgyblion hoyw yn clywed y brawddegau hynny yn aml neu'n gyson.

Mae llai na **chwarter** (23 y cant) y bobl ifanc hoyw wedi clywed rhywun yn yr ysgol yn dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol. Mewn ysgolion sydd wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol, mae pobl ifanc hoyw **60 y cant** yn fwy tebygol o beidio cael eu bwlio.

Mae dros **hanner** y disgyblion lesbiaidd a hoyw yn teimlo nad ydynt yn medru bod yn agored yn yr ysgol. Mae **tri deg pump y cant** o ddisgyblion hoyw yn teimlo nad ydynt yn ddiogel nac wedi'u derbyn yn yr ysgol.



# 2 Canfyddiadau Allweddol

### 2.1 Bwlio:

- **Mae bron i ddwy ran o dair** (65 y cant) o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dioddef bwlio homoffobaidd yn ysgolion Prydain.
- **Mae naw deg saith y cant** o ddisgyblion hoyw yn clywed ymadroddion sarhaus megis "dyke" neu "pwff" yn yr ysgol.
- **Mae naw deg wyth y cant** o ddisgyblion hoyw yn clywed "mae hwnna mor gay" neu "ti mor gay" yn yr ysgol.
- **Mae saith deg pump y cant** o bobl ifanc hoyw mewn ysgolion ffydd yn dioddef bwlio homoffobaidd ac maent yn llai tebygol o wneud cwyn na disgyblion mewn ysgolion eraill.
- **Chwarter yn unig** o ysgolion sy'n dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol yn eu hysgolion. Mewn ysgolion sydd wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol, mae pobl ifanc hoyw 60 y cant yn fwy tebygol o beidio cael eu bwlio.
- **Mae tri deg y cant** o ddisgyblion lesbiaidd a hoyw yn dweud bod oedolion yn gyfrifol am ddigwyddiadau homoffobaidd yn eu hysgolion.
- O'r rhai a gafodd eu bwlio, mae **92 y cant** wedi dioddef bwlio homoffobaidd ar lafar, **41 y cant** bwlio corfforol a **17 y cant** wedi dioddef bygythiad i'w bywydau.

### 2.2 Ymateb ysgolion:

- Nid yw bron i dri o bob pump (58 y cant) disgybl lesbiaidd a hoyw sy'n dioddef bwlio homoffobaidd yn gwneud cwyn. Os ydynt yn dweud wrth athro, mewn 62 y cant o achosion nid oes unrhyw beth yn digwydd.
- Nid yw dros hanner yr athrawon yn ymateb i iaith homoffobaidd y maent yn ei glywed.
- Mae tri o bob pump disgybl yn peidio ag ymyrryd ac yn gwylio'r bwlio'n digwydd.
- Dywedir mai saith y cant o athrawon yn unig sy'n ymateb bob tro maent yn clywed iaith homoffobaidd.
- Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw dair gwaith yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgol yn ysgol agored, oddefgar, os yw'n ymateb i ddigwyddiadau.

### 2.3 Canlyniadau bwlio ar gyfer disgyblion lesbiaidd a hoyw:

- **Dywed saith o bob deg** disgybl hoyw sy'n dioddef bwlio homoffobaidd bod hyn wedi cael effaith ar eu gwaith ysgol.
- **Mae hanner y rhai** sydd wedi dioddef bwlio homoffobaidd wedi osgoi'r ysgol ar ryw gyfnod yn ei sgil, ac mae **un o bob pump** wedi osgoi'r ysgol fwy na chwe gwaith.
- **Nid yw saith o bob deg** disgybl hoyw erioed wedi cael eu dysgu am bobl na materion lesbiaidd a hoyw yn y dosbarth.
- **Mae dros 60 y cant** o bobl ifanc lesbiaidd a hoyw yn teimlo nad oes modd iddynt drafod bod yn hoyw gydag oedolyn yn y cartref na'r ysgol.
- **Nid oes gan bedwar o bob pum** person ifanc hoyw fynediad yn yr ysgol at adnoddau a all eu cynorthwyo.
- **15 y cant** yn unig sy'n mynychu grŵp ieuenctid hoyw lleol, ond mae bron i **ddau o bob pump** wedi mynychu clwb neu dafarn hoyw. Mae pobl ifanc hoyw dwywaith a hanner yn fwy tebygol o fynychu tafarn na grŵp ieuenctid.
- **Tri o bob deg** person ifanc hoyw yn unig sy'n gwybod am athro sy'n agored hoyw.

### 2.4 Beth sy'n gweithio'n dda?

- **Chwarter** yn unig o ysgolion sy'n dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol yn eu hysgol. Mewn ysgolion sydd wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol, mae pobl ifanc hoyw **60 y cant** yn fwy tebygol o beidio cael eu bwlio.
- Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw mewn ysgolion sy'n nodi bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol bron i **70 y cant** yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn yr ysgol.
- Mae disgyblion sy'n mynychu ysgolion lle bo athrawon yn ymateb i ddigwyddiadau homoffobaidd dros dair gwaith yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgol yn le agored, goddefgar, lle mae croeso iddynt.
- Mae disgyblion sy'n cael eu dysgu'n gadarnhaol am faterion lesbiaidd a hoyw **60 y cant** yn fwy tebygol o fod yn hapus yn yr ysgol a **40 y cant** yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael eu parchu.

**Yr astudiaeth** Yn 2006, gofynnodd Stonewall i bobl ifanc o Brydain sy'n lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (neu'n amau efallai eu bod) gwblhau arolwg am eu profiadau yn yr ysgol. Derbyniodd yr arolwg 1145 o ymatebion gan bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd. Cynhaliwyd yr arolwg gan Uned Addysg Iechyd Ysgolion ar ran Stonewall. Roedd ychydig llai na hanner y rhai a ymatebodd yn ferched (48 y cant). Roedd pedwar ar ddeg y cant o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig a 12 y cant yn anabl. Nododd pedwar deg chwech y cant bod ganddynt gred grefyddol. Roedd dros eu hanner (29 y cant) yn Gristnogion. Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd (79 y cant) yn mynychu ysgol y wladwriaeth a 12 y cant yn mynychu ysgolion preifat. Roedd un o bob deg o'r rhai a ymatebodd (110) yn mynychu ysgol ffydd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r arolwg.

# 3 Sut beth yw bwlio homoffobaidd?

Gall disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol ddioddef bwlio homoffobaidd yn amrywio o ymosodiadau ar lafar i fygythiadau i'w bywydau. Mae'r rhai sy'n cael eu bwlio yn dioddef y canlynol:

| Math o fwlio | Canran bobl ifanc lesbiaidd a hoyw |
|---|---|
| Ymosodiad llafar | 92% |
| Clecs maleisus | 76% |
| Edrychiadau bygythiol | 62% |
| Anwybyddu ac ynysu | 58% |
| Seiberfwlio | 41% |
| Cam-drin corfforol | 41% |
| Fandaliaeth a dwyn eiddo | 30% |
| Bygythiadau i fywyd | 17% |
| Bygwth gydag arf | 13% |
| Ymosodiad rhywiol | 12% |

Mae naw deg pedwar y cant o fechgyn hoyw a 90 y cant o ferched hoyw sydd wedi dioddef bwlio homoffobaidd wedi wynebu ymosodiadau ar lafar.

**"Galw enwau, yn arbennig yn yr ystafelloedd newid."** Ben, 18, ysgol gyfun (Gogledd Orllewin Lloegr)

**"Blacmel a sylwadau 'Paid dod yn agos ata i, queer' yn gyffredinol."** Joseph, 13, ysgol Gatholig i fechgyn (Llundain Fwyaf)

Hyd yn oed os nad yw disgyblion hoyw yn dioddef bwlio uniongyrchol, maent yn dysgu mewn amgylchedd lle mae iaith a sylwadau homoffobaidd yn gyffredin, fel eu cyfoedion heterorywiol. Mae naw deg wyth y cant o bobl ifanc hoyw yn clywed yr ymadroddion "mae mor gay" neu "ti mor gay" yn yr ysgol, ac mae dros bedwar o bob pump yn clywed sylwadau o'r fath yn aml neu'n gyson. Mae naw deg saith y cant yn clywed sylwadau sarhaus homoffobaidd eraill, megis "pwff", "dyke", "rug-muncher", "queer" a "bender". Mae saith o bob deg disgybl hoyw yn clywed yr ymadroddion yn aml, neu'n gyson.

**"Mae pobl yn fy ngalw'n 'gay' bob dydd, weithiau rwy'n cael fy nghicio neu 'ngwthio, maent yn fy nghau allan o'r gemau yn ystod gwersi yn y gampfa, ac yn dwyn fy eiddo."** James, 17, ysgol uwchradd (De Orllewin Lloegr)

Mae merched hoyw yn fwy tebygol o gael eu bwlio drwy eu hanwybyddu a'u hynysu. Mae chwe deg pump y cant o ferched yn dioddef cael eu hynysu, o'i gymharu gyda 53 y cant o fechgyn. Mae merched yn dweud eu bod yn cael eu heithrio gan ferched eraill.

**"Mae merched yn cadw draw."** Mary, 13, ysgol ramadeg i ferched (De Ddwyrain Lloegr)

**"Nodiadau hyll yn cael eu pasio yn y dosbarth. Y merched eraill yn gwrthod gadael i mi newid ar gyfer chwaraeon yn yr un ystafell â nhw."** Kirsty, 17, single sex independent school (Greater London)

**Pa mor aml ydych chi wedi clywed sylwadau gwrth-hoyw yn yr ysgol?**




**"... roedd merched blwyddyn yn hŷn (blwyddyn 13) yn gwrthod fy nghyffwrdd neu'n gorchuddio gyddfau isel eu dillad wrth i fi basio."** Hannah, 16, ysgol uwchradd (Llundain Fwyaf)

Yn gyffredinol, mae tri o bob pedwar disgybl hoyw wedi bod yn destun clecs, a dros dri ym mhob pump o fechgyn a merched hoyw wedi dioddef edrychiadau bygythiol.

**"Rwyf wedi dioddef bwlio oherwydd fy ngolwg - disgyblion eraill yn gofyn ai bachgen neu ferch ydw i. Roedd y bwlio'n digwydd fwy nag unwaith yr wythnos, ar lafar ac yn edrychiadau bygythiol."** Helen, 17, ysgol gyfun (Gogledd Orllewin Lloegr)

**"Roedd rhywun wedi dod i wybod am fy rhywioldeb, ac wedi dweud wrth bawb yn yr ysgol. Mae pawb yn gwybod ac yn edrych arna i, yn bygwth, a does neb yn helpu. Maent yn fy ngwthio yn y coridorau, ac mae'r athrawon wedi gweld, ond yn ymddwyn fel petai dim wedi digwydd. Mae pobl yn dweud 'yyych, paid cyffwrdd y lezzy/dyke/minger/muff muncher/beanflicker' ac mae'n brifo."** Sarah, 14, coleg technegol dinesig (De Orllewin Lloegr)

Mae bechgyn hoyw yn fwy tebygol o ddioddef fandaliaeth neu ladrad i'w heiddo. Mae trydydd o fechgyn, o'i gymharu gyda chwarter y merched, wedi dioddef bwlio fel hyn.

**"Mae pobl yn galw enwau o hyd yn yr ysgol, yn arbennig pwff a ffagot. Maen nhw'n rhwygo fy eiddo, neu'n ysgrifennu arno, neu'n ei ddwyn o hyd."** Alan, 13, ysgol uwchradd (yr Alban)

**"Taflu llyfrau allan drwy'r ffenestr ataf i a'm cariad. Yr unig reswm i'r ysgol wneud unrhyw beth oedd 'niwed i eiddo'r ysgol'."** Laura, 13, ysgol Gatholig annibynnol i ferched (Llundain Fwyaf)

Mae dros ddau o bob pump person ifanc hoyw wedi dioddef seibrfwlio, ac un o bob pump wedi dioddef bwlio drwy neges destun. Seibrfwlio yw bwlio sy'n digwydd o bell, dros y rhyngrwyd. Er enghraifft, gall bwlio ddigwydd ar fyrddau negeseuon, drwy neges uniongyrchol rhwng dau berson, ar safleoedd cymdeithasol megis Bebo, Faceparty a Myspace, a thrwy blogiau. Mae'r rhyngrwyd yn gymharol ddireolaeth a gall bwlio drwy'r cyfrwng hwn ddigwydd y tu allan i'r ysgol. Golyga hyn y gall person ifanc gael ei fwlio hyd yn oed os ydynt ar eu pennau eu hunain yn eu cartref. Gellir anfon negeseuon testun hefyd ar unrhyw adeg.

**"Mae pobl wedi gosod pethau ar eu blogiau bebo am bobl maent yn meddwl sy'n hoyw, neu'n gwybod sy'n hoyw."** Simon, 16, ysgol uwchradd (yr Alban)

**"MSN Messenger yn bennaf, pan oedd pobl yn fy mygwth, ac yna'n gwadu'r peth yn yr ysgol."** Steve, 13, ysgol gyfun (Gogledd Ddwyrain Lloegr)

Mae pedwar deg un y cant o bobl ifanc lesbiaidd a hoyw wedi dioddef bwlio homoffobaidd corfforol. Gall hyn gynnwys taro, dyrnu a chicio yn ogystal â thaflu gwrthrychau. Mae bechgyn yn fwy tebygol o ddioddef y math hwn o fwlio: mae dros ddau o bob pump o fechgyn, a thrydydd o ferched wedi dioddef bwlio homoffobaidd corfforol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ystadegau cyffredinol am fwlio sy'n nodi bod bechgyn yn fwy tebygol o ddioddef bwlio corfforol na merched (Tackling Bullying: Listening to the views of children and young people, ChildLine 2003).

**"Cefais fy nhrywanu o achos fy rhywioldeb.""**
Joe, bellach yn 19, ysgol gyfun (Gorllewin Canolbarth Lloegr)

**"Ymosodwyd arnaf ar dri achlysur, gan gael archwiliad yn yr ysbyty a siarad gyda'r heddlu."**
Ali, 17, ysgol uwchradd (Llundain Fwyaf)

**"Dyrnu, methu cerdded am bron i flwyddyn, gan wella ar ôl cael llawdriniaeth."** Jamelia, 18, ysgol ramadeg (De Ddwyrain Lloegr)

**"Rwyf wedi dioddef bwlio megis ymosodiadau cyson ar lafar, wedi cael siswrn wedi'i daflu ataf, ambell i ddwrn – weithiau dan drwyn yr athrawon."** Kevin, 16, ysgol gyfun (Llundain Fwyaf)

Mae un o bob wyth disgybl hoyw (13 y cant) wedi'u bygwth gydag arf ac un o bob chwech (17 y cant) wedi dioddef bygythiadau i'w bywydau.

**"Un tro tynnodd merch o'm blwyddyn gyllell allan, a dweud y dylid saethu bob dyke. Doedden nhw ddim yn gwybod [fy mod yn ddeurywiol] hyd yn oed, dim ond yn dyfalu."** Nat, 15, ysgol ramadeg (De Ddwyrain Lloegr)

**"Un tro cefais fy mygwth gan frawd fy ffrind drwy neges uniongyrchol, y byddai yn fy nghuro i farwolaeth ar y stryd pe bai yn fy ngweld, neu'n llosgi fy nhŷ wrth i mi gysgu. Hefyd dywedodd wrthyf am beidio mynd i ddigwyddiad lleol gan ei fod yn gweithio yno, ac os y byddai yn fy ngweld, byddai'n gofyn i'w ffrindiau ei helpu."** Sean, 16, ysgol uwchradd

**"Daeth un ferch ataf a dweud y byddai'n fy lladd os na fyddwn yn ufuddhau iddi."** Craig, 17, ysgol annibynnol (De Ddwyrain Lloegr)

Mae un o bob wyth (12 y cant) o ddisgyblion hoyw hefyd wedi wynebu ymosodiad rhywiol. Gall hyn fod gan bobl heterorywiol o'r un rhyw sydd am boeni disgyblion lesbiaidd a hoyw, ond mae merched hoyw hefyd yn dioddef aflonyddwch rhywiol gan fechgyn.

**"Ymosodiad rhywiol yn y tin neu gydio yn y peli, gyda'r geiriau 'Queer, ti'n mwynhau hyn y pwff bastard' ac yn y blaen."** Neil, 15, ysgol gyfun (yr Alban)

**"Daeth un ferch ataf a cheisio llyfu fy fagina."** Elizabeth, 17, ysgol uwchradd (Dwyrain Lloegr)

**"Y profiad gwaethaf a gefais oedd bachgen strêt yn dod i eistedd wrth fy ymyl, ac yn cyffwrdd fy nghoes i'm pryfocio. Roedd yn tarfu ar fy ngofod personol, ac yn fygythiol iawn."** Alex, 18, ysgol ddisglair (Swydd Efrog a Humber)

## 4 Pwy sy'n bwlio?

Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw yn dweud eu bod yn dioddef bwlio gan bob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys oedolion a disgyblion iau.

Mae bron i bedwar o bob pump (79 y cant) disgybl hoyw yn dioddef bwlio gan fechgyn yn eu blwyddyn, a dros eu hanner yn dioddef bwlio gan ferched yn eu blwyddyn.

Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw hefyd yn dioddef bwlio gan bobl hŷn ac iau. Mae dros hanner y digwyddiadau wedi'u cychwyn gan fechgyn hŷn yn yr ysgol, ac ychydig yn llai na'r hanner (46 y cant) gan fechgyn iau yn yr ysgol.

Mae dros un o bob tri yn dioddef bwlio gan ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion eraill.

**"Nid oedd un bwli unigol i'w dargedu. Roedd yr ysgol lle'r oeddwn yn gwneud fy TGAU yn geidwadol a thraddodiadol, felly roedd yn cael ei anwybyddu cymaint â phosib, a dywedwyd wrthyf am wneud fy rhywioldeb yn llai amlwg."** Simon, 17, ysgol annibynnol (De Ddwyrain)

Mae dros eu hanner (52 y cant) wedi clywed sylwadau homoffobaidd gan athrawon neu staff ysgol. Mae tri deg y cant o ddisgyblion lesbiaidd a hoyw yn dweud bod oedolion wedi bod yn gyfrifol am ddigwyddiadau bwlio homoffobaidd yn eu hysgolion.

**"Roedd yr athro yn chwerthin am ben bobl hoyw, a'r disgyblion eraill i gyd yn pryfocio, a dechreuais wingo ac roedd yn rhaid i mi adael."** Sue, 14, coleg technegol dinesig (De Orllewin Lloegr)

**"Yn y wers Addysg Grefyddol roedd fy athrawes yn osgoi'r cwestiwn gymaint ag oedd modd, ond siaradodd gyda mi wedyn (gan dybio yn sgil fy marn a sylwadau rhai o aelodau'r dosbarth fy mod yn hoyw) am ddewisiadau bywyd da a drwg, ac na ddylwn wneud penderfyniad nawr, y dylwn ymatal rhag dewisiadau bywyd drwg, a fydd yn fy 'niweidio'."** May, 16, ysgol uwchradd (De Orllewin Lloegr)

**"Mae'r athrawon yn ymuno yn y jôc."** Catherine, 13, ysgol annibynnol i ferched (De Ddwyrain Lloegr

**"Nid oeddwn yn ymwybodol o'm rhywioldeb ar y pryd ac roedd y merched yn fy ngalw'n lesbiad ac yn fy mwlio'n ddifrifol, ac yn fy ngwneud yn isel fy ysbryd ac yn ystyried hunanladdiad."** Saffron, 19, ysgol gyfun (De Ddwyrain Lloegr)

**Pwy oedd yn eich bwlio?**




**Pa mor aml mae staff yn ymyrryd wrth glywed iaith homoffobaidd?**




## 5 Ymatebion i fwlio homoffobaidd

Nid yw tri o bob pump o ddisgyblion hoyw (58 y cant) yn dweud wrth unrhyw un os ydynt yn dioddef bwlio homoffobaidd. Nid yw 62 y cant o ferched a 56 y cant o fechgyn yn dweud wrth unrhyw un. Mae dros 60 y cant o bobl ifanc lesbiaidd a hoyw yn teimlo nad oes modd trafod bod yn hoyw gydag unrhyw oedolyn yn y cartref na'r ysgol. Gall hyn fod gan nad yw pobl ifanc am i unrhyw un yn y cartref na'r ysgol wybod eu bod yn hoyw. Gall cwyno am fwlio deimlo fel dod allan.

**"Dywedodd athro y byddai'n rhaid gwneud adroddiad os fyddai bachgen hoyw yn dod allan. Felly roeddwn yn rhy ofnus i gyfaddef unrhyw beth."** Tom, 18, ysgol uwchradd ddisglair (Swydd Efrog a Glannau Humber)

**"Fedra i ddim dweud wrth unrhyw un, oherwydd does neb yn gwybod fy mod yn hoyw... cefais fy nyrnu yn y coridor heddiw er enghraifft, a fedra i ddim dweud wrth yr athro gan y bydd yn golygu dod allan."** Nick, 14, ysgol uwchradd (Cymru)

**Pa mor aml mae disgyblion yn ymyrryd wrth glywed iaith homoffobaidd?**



Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw sy'n mynychu ysgolion ffydd dipyn yn llai tebygol (23 y cant) o ddweud wrth rywun na disgyblion lesbiaidd a hoyw sy'n mynychu ysgolion eraill. Pedwar y cant yn unig o ddisgyblion hoyw oedd yn teimlo eu bod yn medru dweud wrth eu harweinwyr crefyddol lleol am y bwlio.

**"Rwy'n mynychu ysgol Gatholig. Byddwn yn fwy tebygol o gael y drefn am fod yn lesbiad."** Susan, 16, ysgol Gatholig i ferched (De Ddwyrain Lloegr)

Mae disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dweud nad yw hanner yr athrawon yn ymateb i iaith homoffobaidd yn eu clyw. Dywedir mai saith y cant yn unig o athrawon sy'n ymateb bob tro ar glywed iaith homoffobaidd.

Nid yw tri o bob pump o ddisgyblion yn ymyrryd ar glywed iaith homoffobaidd, ond yn hytrach maent yn gwylio o'r cyrion.

**"Rwy'n bryderus nad oedd modd i mi ymyrryd oherwydd nad oedd yn eistedd yn agos, ond hefyd (gan fod pawb yn gwybod fy mod yn hoyw/deurywiol ar y pryd) gallai cymorth 'lezzo' fod wedi gwneud pethau'n waeth iddi."** Anna, 16, ysgol ramadeg i ferched (De Ddwyrain Lloegr)

O'r rhai a ddywedodd wrth rywun am fwlio homoffobaidd, dywedodd y mwyafrif o ddisgyblion lesbiaidd a hoyw wrth gyfaill yn yr ysgol.

**"Heriais nhw gyda'm ffrindiau. Ac fe sylweddolodd y bwlis nad oeddwn yn barod i'w oddef."** Charlie, 16, Coleg Addysg Bellach (Cymru)

**"Roedd ymateb cyfeillion yn gefnogol, ond ni wnaeth yr athrawon ysgol unrhyw beth."**
Paul, 16, Ysgol Uwchradd Gatholig (Gogledd Orllewin Lloegr)

Roedd hanner y rhai a ddywedodd wrth rywun am y bwlio wedi dweud wrth athro, a 37 y cant wedi dweud wrth riant neu ofalwr. Mae disgyblion ifanc lesbiaidd a hoyw yn fwy tebygol o siarad gydag athro os ydynt yn gwybod eu bod yn lesbiaidd neu hoyw. Mae tri o bob deg yn gwybod am athro agored hoyw ac, os felly, maent 72 y cant yn fwy tebygol o siarad gydag oedolyn yn yr ysgol am fod yn hoyw.

Dywedodd chwe deg dau y cant o ddisgyblion lesbiaidd a hoyw nad oedd unrhyw beth wedi digwydd i'r bwli ar ôl iddynt ddweud wrth rywun. Un achos o bob pedwar yn unig arweiniodd at ddweud y drefn wrth y bwli, gydag un o bob deg yn cael eu cadw ar ôl ysgol.

**"Cwynais am y peth ac fe ddywedodd yr athrawon nad oedd modd iddynt wneud unrhyw beth, a phan fyddai bwlio ar lafar yn digwydd, byddent yn sefyll a gwylio, ac yna'n cerdded i ffwrdd. Ychydig droeon, wrth weld bwlio corfforol, roeddent naill ai yn esgus nad oeddent wedi sylwi, neu'n dweud y drefn."** Ian, 17, ysgol uwchradd (Dwyrain Canolbarth Lloegr)

**"Dywedodd yr athro mai fi oedd ar fai am fod yn agored."**
Jessa, 18, ysgol annibynnol i ferched (Llundain Fwyaf)

**"Dywedais wrth y llyfrgellydd, dywedodd mai fi oedd ar fai am gyfaddef fy mod yn ddeurywiol. Dywedais na fyddai hi'n goddef hiliaeth neu fwlio ar sail crefydd, a dywedodd fod hynny'n 'gwbl wahanol'."** Fi, 16, ysgol gyfun (Swydd Efrog a Humber)

**"Y person diwethaf y dywedais wrtho am ymddygiad homoffobaidd oedd fy athro drama, a oedd gymaint o help â gard tân siocled."** Stuart, 18, Coleg Addysg Bellach (Swydd Efrog a Humber)

**Beth ddigwyddodd i'r bwli?**




"Dywedais wrth y llyfrgellydd, dywedodd mai fi oedd ar fai am gyfaddef fy mod yn ddeurywiol. Dywedais na fyddai hi'n goddef hiliaeth neu fwlio ar sail crefydd ac fe ddywedodd fod hynny'n 'gwbl wahanol'."

Fi, 16, ysgol gyfun (Swydd Efrog a Humber)

# 6 Y canlyniadau ar gyfer disgyblion lesbiaidd a hoyw

Mae canlyniadau eang i fwlio homoffobaidd.

## 6.1 Polisïau bwlio homoffobaidd

Mae llai na chwarter yr ysgolion wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol. Mewn ysgolion sydd wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol, mae pobl ifanc hoyw 60 y cant yn fwy tebygol o beidio cael eu bwlio.

**"Mae cynllun gwrth-fwlio gan fy ysgol ond mae'r pwyslais yn gyson ar beidio bwlio yn sgil cred, lliw a gallu. Nid yw cyfeiriadedd rhywiol wedi'i grybwyll erioed."**
James, 17, ysgol annibynnol (De Ddwyrain Lloegr)

**"Mae'n ysgol Gatholig…ac rydym yn clywed 'mae pobl hoyw yn mynd i uffern oherwydd mae'r Beibl yn ei gondemnio'… Mae'n erchyll, rydych eisiau llefain ar ôl clywed rhai o sylwadau'r athrawon. Nid yw'n deg o gwbl."**
Matthew, 18, Ysgol Gatholig i fechgyn (De Ddwyrain Lloegr)

Nid yw dros dreian yr holl bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Os ydynt wedi cael eu bwlio, maent yn llawer llai tebygol (60 y cant) o deimlo'n ddiogel o'i gymharu gyda'r rhai nad ydynt wedi eu bwlio erioed.

Mae pedwar deg un y cant o ddisgyblion hoyw wedi dioddef camdriniaeth gorfforol. Mae dros un o bob wyth o'r rhai sydd wedi cael eu bwlio wedi dioddef bygythiadau gydag arf, neu gamdriniaeth rywiol. Mae un o bob chwech wedi derbyn bygythiad i'w bywydau.

## 6.2 Cyrhaeddiad a dyheadau disgyblion

Meddai disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol bod bwlio homoffobaidd yn effeithio ar eu gwaith ysgol. Meddai saith o bob deg o ddisgyblion sy'n dioddef bwlio homoffobaidd bod hyn yn effeithio ar eu gwaith ysgol. Mae dros hanner yr holl ddisgyblion lesbiaidd a hoyw, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu bwlio, yn credu bod bwlio homoffobaidd yn effeithio ar eu gwaith ysgol. Mae merched yn fwy tebygol o gydnabod bod bwlio homoffobaidd yn effeithio ar eu gwaith.

**"Roedd llawer o'r bwlio difrifol yn fy hen ysgol yn ystod y blynyddoedd TGAU – blynyddoedd 10 ac 11 – felly gadewais yr ysgol yn gynnar a mynd i goleg 6ed dosbarth gwahanol."** Brad, 17, coleg chweched dosbarth (De Ddwyrain Lloegr)

Mae disgyblion hoyw o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig (hyd yn oed os nad ydynt wedi dioddef bwlio) dwywaith yn fwy tebygol na disgyblion gwyn i anghytuno gyda'r datganiad "Rwy'n bwriadu mynd i'r brifysgol neu goleg ar ôl gadael yr ysgol" ac maent dair gwaith a hanner yn fwy tebygol o anghytuno gyda'r datganiad "Mae'n bwysig i mi orffen yr ysgol gyda chymwysterau da."

**"Ar un adeg roedd yr holl beth yn ormod i mi, ac a dweud y gwir doedd dim modd i mi oddef rhagor. Felly roedd yn rhaid i mi newid fy ffôn, a dod allan o rai o'm gwersi gan i'r sefyllfa waethygu cymaint."**
Jay, 18, Coleg Addysg Bellach (Gogledd Ddwyrain Lloegr)

**"Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol"**




**Ydych chi'n credu bod bwlio homoffobaidd yn effeithio ar eich gwaith ysgol?**




## 6.3 Osgoi'r ysgol

Mae hanner y rhai sydd wedi dioddef bwlio homoffobaidd wedi osgoi'r ysgol yn ei sgil, ac un o bob pump wedi osgoi'r ysgol mwy na chwe gwaith. Mae trydydd o ddisgyblion hoyw sydd wedi eu bwlio yn debygol o osgoi'r ysgol yn y dyfodol.

Mae tri deg pedwar y cant o bob disgybl ifanc lesbiaidd a hoyw wedi osgoi'r ysgol ar ryw gyfnod. Mae dau o bob pum disgybl hoyw o gefndir du a lleiafrifoedd ethnig wedi osgoi'r ysgol, ac un o bob pump ohonynt wedi osgoi'r ysgol fwy na chwe gwaith - tipyn yn fwy tebygol (35 y cant) na disgyblion gwyn.

Nid yw dros dreian o'r disgyblion ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn hoffi mynd i'r ysgol. Mae disgyblion sydd wedi dioddef bwlio homoffobaidd 44 y cant yn fwy tebygol o deimlo hyn o'i gymharu gyda rhai nad ydynt wedi cael eu bwlio.

Mae tri deg pump y cant o bobl ifanc hoyw yn anghytuno bod eu hysgol yn le agored, goddefgar, lle mae croeso iddynt. Mae hyn yn codi i 40 y cant ymysg y rhai sydd wedi dioddef bwlio homoffobaidd a bron i hanner, 47 y cant, y rhai sy'n mynychu ysgolion ffydd.

## 6.4 Cwricwlwm a dysgu

Nid yw saith o bob deg o ddisgyblion wedi eu dysgu am bobl lesbiaidd na hoyw, nac wedi gweld materion lesbiaidd a hoyw yn cael eu trafod yn y dosbarth. Nid yw tri chwarter y rhai sydd wedi dioddef bwlio homoffobaidd wedi gweld materion lesbiaidd a hoyw yn cael eu trafod yn y dosbarth. Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw sydd wedi cael eu dysgu am faterion hoyw 13 y cant yn llai tebygol o ddioddef bwlio homoffobaidd.

Serch hynny, mae disgyblion lesbiaidd a hoyw yn dweud y gall dysgu am gyfeiriadedd rhywiol weithiau fod yn gamarweiniol ac yn anghywir, ac y gall hyn arwain at fwlio pellach.

**"Yr unig beth a ddywedwyd oedd os byddai dau ddyn yn cael rhyw rhefrol, byddant yn cael HIV."**
Rory, bellach yn 19, Coleg Addysg Bellach (Gogledd Orllewin Lloegr)

**"Roedd Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd am AIDS - doedd yr athro ddim yn herio'r dybiaeth ei fod yn 'afiechyd hoyw' ac yn awgrymu bod yr hyn yr oedd dynion hoyw yn ei wneud yn y gwely'n atgas."**
Rachel, 18, ysgol uwchradd annibynnol (Llundain Fwyaf)

**"Roedd fy athro yn anwybodus iawn am faterion hoyw a'r gyfraith am ryw hoyw, ond doedd dim modd i mi ei chywiro, oherwydd nad oeddwn am dynnu sylw at y ffaith fy mod yn gwybod amdano."** Rhiannon, 17, ysgol gyfun (Cymru)

Nid yw dros hanner y bobl ifanc lesbiaidd a hoyw yn hoffi chwarae chwaraeon tîm, ond os ydynt yn cael eu bwlio, mae hyn 22 y cant yn fwy tebygol.

Mae hanner y bobl ifanc lesbiaidd a hoyw yn teimlo ei fod yn anodd i bobl fel hwy gael eu derbyn yn yr ysgol, ac mae eu hanner yn teimlo nad oes modd iddynt fod yn agored. Mae dros un o bob tri yn anhapus yn yr ysgol. O'r rhai sydd wedi cael eu bwlio, mae 44 y cant yn anhapus.

Nid yw dros dreian y disgyblion ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn teimlo'n rhan o gymuned eu hysgol. Os ydynt wedi cael eu bwlio, maent 50 y cant yn fwy tebygol o deimlo hynny. Nid yw dau o bob pump o ddisgyblion lesbiaidd a hoyw yn cyfranogi mewn unrhyw weithgareddau allgyrsiol, ac nid yw bron i'r hanner yn cyfranogi mewn unrhyw gyfleoedd gwirfoddoli y tu allan i'r ysgol, o'i gymharu gyda'r rhai nad ydynt wedi cael eu bwlio.

## 6.5 Adnoddau ar gyfer disgyblion lesbiaidd a hoyw

Nid oes gan bedwar o bob pum person ifanc lesbiaidd a hoyw fynediad at unrhyw wybodaeth o gwbl am faterion lesbiaidd a hoyw. Nid oes llyfrau yn y llyfrgelloedd, ac nid oes ganddynt fynediad at adnoddau ar y rhyngrwyd i gael mwy o wybodaeth. Chwech y cant o ysgolion yn unig sydd â chlwb penodol ar gyfer disgyblion lesbiaidd a hoyw a'u cyfeillion.

**Ydych chi wedi colli diwrnod o ysgol yn sgil bwlio homoffobaidd?**




Nid oes modd i dros **60 y cant** o bobl ifanc lesbiaidd a hoyw siarad gydag oedolyn yn yr ysgol na'r cartref. Mae disgyblion ifanc lesbiaidd a hoyw yn fwy tebygol o ddweud wrth athro am fwlio homoffobaidd os ydynt yn gwybod bod yr athro yn lesbiaidd neu hoyw. **Mae tri o bob deg** yn adnabod athro hoyw, ac maent **72 y cant** yn fwy tebygol o siarad gydag oedolyn yn yr ysgol am fod yn hoyw.

Mae disgyblion ifanc hoyw yn llai tebygol o deimlo'n rhan o gymuned yr ysgol, a'r gymuned leol, os ydynt yn cael eu bwlio.

## 6.6 Cadw'n ddiogel tu allan i'r ysgol

**15 y cant** o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn unig sydd wedi mynychu grŵp ieuenctid hoyw. Mae pobl ifanc sy'n mynychu grwpiau o'r fath **37 y cant** yn fwy tebygol o deimlo bod modd trafod bod yn hoyw gydag oedolyn yn y cartref, a **32 y cant** yn fwy tebygol o deimlo bod modd siarad gydag oedolyn yn yr ysgol.

Serch hynny mae pobl ifanc yn fwy tebygol o geisio cefnogaeth a chymuned mewn tafarnau a chlybiau, hyd yn oed os ydynt dan oed. Mae bron i ddau o bob pump o bobl ifanc lesbiaidd a hoyw wedi mynychu tafarn neu glwb. **Mae pedwar deg pump y cant** o'r rhai sydd wedi dioddef bwlio homoffobaidd wedi bod mewn tafarn neu glwb. Mae pobl ifanc lesbiaidd a hoyw dwywaith a hanner yn fwy tebygol o fynychu tafarn neu glwb na grŵp ieuenctid.

**"Roeddwn i a chwpwl lesbiaidd yr oeddwn yn eu hadnabod mewn tafarn yn meddwi, ac roedd tri dyn yn ymddiddori yn ein sgwrs am atyniad at fenywod... Roeddent yn sarhaus, ond doedd hynny ddim yn fy mhoeni rhyw lawer... pan oeddem yn gadael y dafarn, dechreuodd y dynion ein dilyn heb i ni wybod... pan gyrhaeddom at fan tawel, cynigiwyd arian i ni 'brofi ein bod yn lesbiaid' ac wedi i ni wrthod, roeddent yn fwy ymosodol... dechreuwyd ymladd, ac fe gollais fy nillad."** Sammy, 17, Coleg Addysg Bellach (De Ddwyrain Lloegr)

**"Rwy'n teimlo'n rhan o gymuned fy ysgol"**




"Ar un adeg roedd yr holl beth yn ormod i mi, ac a dweud y gwir doedd dim modd i mi oddef rhagor. Felly roedd yn rhaid i mi newid fy ffôn, a dod allan o rai o'm gwersi gan i'r sefyllfa waethygu cymaint."

Jay, 18, Coleg Addysg Bellach (Gogledd Ddwyrain Lloegr)

# 7 Beth sy'n gweithio'n dda?

Gall ysgolion weithio i atal ac ymateb i fwlio homoffobaidd, a chymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod yr amgylchedd ddysgu yn le cadarnhaol ar gyfer disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol, ac mae ysgolion yn gwneud hynny.

Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw yn fwy tebygol o deimlo'n gadarnhaol am eu hysgol os yw eu hysgol wedi **nodi'n glir bod bwlio homoffobaidd yn erbyn y rheolau**. Mae llai na chwarter y bobl ifanc hoyw wedi clywed rhywun yn dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol yn eu hysgol. Mewn ysgolion sydd wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol, mae pobl ifanc hoyw 60 y cant yn fwy tebygol o beidio cael eu bwlio.

Pan fo ysgolion yn nodi bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol, mae disgyblion lesbiaidd a hoyw dwywaith yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgol yn ysgol agored, oddefgar lle mae croeso iddynt. Hefyd maent:

- 70 y cant yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn yr ysgol.
- Bron i ddwywaith yn fwy tebygol o deimlo'n rhan o gymuned yr ysgol.
- 43 y cant yn fwy tebygol o deimlo bod yr ysgol yn sylwi pan maent yn llwyddiannus.
- 81 y cant yn fwy tebygol o deimlo bod gan eu hysgol ffyrdd o'u cynorthwyo i ddatrys problemau gyda disgyblion eraill.
- Bron i ddwywaith yn fwy tebygol o fwynhau mynychu'r ysgol, teimlo'n hapus yn yr ysgol a theimlo eu bod yn cael eu parchu.
- Dros ddwywaith yn fwy tebygol o deimlo bod modd iddynt fod yn agored.
- Yn olaf, maent ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o deimlo bod modd iddynt siarad gydag oedolyn yn yr ysgol am fod yn hoyw.

**"Mae gan ein hysgol bolisi gwrth-gamwahaniaethu cryf ar gyfer bob lleiafrif. Mae bob myfyriwr yn ymwybodol o hyn ac felly ychydig iawn o fwlio difrifol sy'n digwydd."** Josh, 15, ysgol uwchradd ddisglair (De Orllewin Lloegr)

Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw hefyd yn debygol o deimlo'n well am eu hysgol os yw **ysgolion yn ymateb i fwlio homoffobaidd pan fo'n digwydd**. Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw dros dair gwaith yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgol yn lle agored, goddefgar lle mae croeso iddynt, os yw ysgolion yn ymateb i ddigwyddiadau. Hefyd maent:

- Tair gwaith yn fwy tebygol o deimlo bod gan eu hysgol ffyrdd o'u cynorthwyo i ddatrys problemau gyda disgyblion eraill.
- Bron i dair gwaith yn fwy tebygol o deimlo bod modd iddynt fod yn agored, a dros ddwywaith yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael eu parchu yn yr ysgol.
- 78 y cant yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgol yn cydnabod pan maent yn llwyddo.
- Dros ddwywaith yn fwy tebygol o deimlo'n rhan o gymuned eu hysgol.
- Dros ddwywaith yn fwy tebygol o fwynhau mynd i'r ysgol , a dwywaith a hanner yn fwy tebygol o fod yn hapus.
- Yn olaf, maent dwywaith a hanner yn fwy tebygol o deimlo bod modd trafod bod yn hoyw gydag oedolyn yn yr ysgol.

**"Trafododd yr athro'r mater gyda nhw ac fe gawsom wasanaeth am homoffobia."** Theo, 16, ysgol annibynnol (De Ddwyrain Lloegr)

**"Cawsant eu gwahardd rhag cymryd arholiadau (roeddent ym mlwyddyn 11 ac roedd hyn ychydig cyn arholiadau TGAU'r haf) ac felly roeddent wedi'u gwahardd o safle'r ysgol."**
Jamie, 16, ysgol uwchradd ddisglair (Dwyrain Canolbarth Lloegr)

**"Roedd gen i bedwar athro gwych a fu o help mawr i mi… roedd llyfrgellydd yr ysgol yn anhygoel, ac mae fy nyled yn fawr iddi."**
Roy, 16, ysgol uwchradd (Gorllewin Canolbarth Lloegr)

**"Dywedais wrth y Swyddog Amddiffyn Plant yn fy ysgol, ac fe'm sicrhawyd y byddai camau'n cael eu cymryd i sicrhau y byddai gwersi addysg rhyw yn cynnwys perthynas hoyw a lesbiaidd, a diwrnod hyfforddiant staff ar sut i ddelio gyda bwlio gwrth-hoyw."** Celia, 15, ysgol uwchradd (De Orllewin Lloegr)

Mae disgyblion sydd wedi eu **dysgu, mewn ffordd gadarnhaol, am faterion lesbiaidd a hoyw** hefyd yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn yr ysgol. Maent:

- 60 y cant yn fwy tebygol o fod yn hapus yn yr ysgol a 40 y cant yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael eu parchu.
- 62 y cant yn fwy tebygol o deimlo bod gan eu hysgol ffyrdd o'u cynorthwyo i ddatrys problemau gyda phobl eraill.
- 60 y cant yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgol yn ysgol agored, oddefgar sy'n eu croesawu.
- 40 y cant yn fwy tebygol o deimlo'n rhan o gymuned yr ysgol a theimlo bod eu hysgol yn sylwi pan maent yn llwyddiannus.
- Un waith a hanner yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn yr ysgol.
- 36 y cant yn fwy tebygol o fwynhau mynd i'r ysgol a dros 69 y cant yn fwy tebygol o fedru bod yn agored.
- Yn olaf, maent 25 y cant yn fwy tebygol o deimlo bod modd trafod bod yn hoyw gydag oedolyn yn yr ysgol.

**"Dysgwyd ni i fod yn oddefgar yn ein gwersi Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd, ac mae hynny'n iawn… Rydym hefyd wedi cael rhai cyfeiriadau yn ein gwersi Saesneg, e.e. roedd un o'r awduron yn lesbiaidd, ac roeddem yn ei dderbyn fel ffaith, a dim mwy."** Pru, 16, Ysgol Academi (Cymru)

**"Gan fy mod mewn ysgol Gatholig, fel rhan o'm TGAU Addysg Grefyddol roedd cyfunrywioldeb a'r Eglwys Gatholig yn un testun. Dywedwyd wrthym yn sylfaenol nad oedd bod yn hoyw neu ddeurywiol yn bechod, ond bod y weithred rywiol yn bechod. Diolch byth, roedd ein hathrawes yn ifanc ac yn dweud dim mwy na'r hyn yr oedd yn rhaid iddi ei ddweud. Caniataodd i ni drafod ychydig am y testun, oherwydd roedd yn ymddangos nad oedd yn cytuno gyda'r Fatican er ei bod yn Gatholig ymroddedig ei hun."**
Ruth, 18, Ysgol Uwchradd Gatholig (Gorllewin Canolbarth Lloegr)

**"Dywedwyd wrthym pa mor annerbyniol oedd camwahaniaethu yn erbyn pobl yn sgil eu rhywioldeb. Mae ein hysgol yn dda iawn gyda phethau fel hyn. Gallwch siarad gyda rhywun a fydd yn eich cymryd o ddifrif. Os ydych yn cael eich bwlio, mae'r peth yn cael ei gymryd o ddifrif, a bydd camau'n cael eu cymryd ar unwaith."** Fergus, 17, ysgol gyfun (yr Alban)

"Dywedwyd wrthym pa mor annerbyniol oedd camwahaniaethu yn erbyn pobl yn sgil eu rhywioldeb. Mae ein hysgol yn dda iawn gyda phethau fel hyn. Gallwch siarad gyda rhywun a fydd yn eich cymryd o ddifrif. Os ydych yn cael eich bwlio, mae'r peth yn cael ei gymryd o ddifrif, a bydd camau'n cael eu cymryd ar unwaith." Fergus, 17, ysgol gyfun (yr Alban)

# 8 Argymhellion

Mae deg ffordd allweddol o gefnogi disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn yr ysgol

## 1 Cydnabod a chlustnodi'r broblem

Mae bron i **ddwy ran o dair** o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn dioddef bwlio homoffobaidd mewn ysgolion, a **75 y cant** o bobl ifanc mewn ysgolion ffydd yn dioddef bwlio homoffobaidd.

Dylai ysgolion gydnabod bod bwlio homoffobaidd yn digwydd, a chymryd camau i'w atal ac ymateb iddo. Yn ôl arolwg diweddar gan YouGov ar ran Stonewall, mae **92 y cant** o rieni – gan gynnwys rhieni plant dan 18 – yn credu y dylid taclo bwlio homoffobaidd. Mae **naw o bob deg o** 'bobl o ffydd' yn cytuno. Mae'r mwyafrif yn credu bod cyfrifoldeb ar athrawon, penaethiaid a rhieni i ddangos arweiniad.

## 2 Datblygu polisïau a dweud wrth bobl ifanc amdanynt

Chwarter y bobl ifanc hoyw yn unig sydd wedi clywed rhywun yn dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol yn eu hysgolion. Mewn ysgolion sydd wedi dweud bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol, mae pobl ifanc hoyw **60 y cant** yn fwy tebygol o beidio cael eu bwlio. Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw yn teimlo'n fwy cadarnhaol am eu hysgolion os oes ganddynt bolisïau ynglŷn â bwlio homoffobaidd. Maent ddwywaith yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgol yn ysgol agored, oddefgar, sy'n eu croesawu.

Dylai ysgolion ddatblygu polisïau bwlio homoffobaidd clir, hysbysu'r disgyblion, a'u gweithredu.

## 3 Hyrwyddo amgylchedd cymdeithasol cadarnhaol

Mae **hanner** yr athrawon yn methu ymateb i iaith homoffobaidd yn eu clyw, a **thri o bob pump** o ddisgyblion yn peidio ag ymyrryd, ond yn sefyll ar y cyrion wrth weld bwlio. Hyd yn oed os nad yw disgybl hoyw wedi cael ei fwlio, mae diwylliant o homoffobia yn effeithio ar y teimlad o berthyn mewn ysgol.

Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw **dair gwaith** yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgol yn ysgol agored, oddefgar, os yw ysgolion yn ymateb i ddigwyddiadau. Dylai staff deimlo bod modd iddynt gyfrannu tuag at amgylchedd cymdeithasol sy'n parchu pobl hoyw a materion hoyw.

## 4 Edrych ar anghenion hyfforddiant staff

Dywedir mai **5 y cant yn unig** o staff sy'n ymateb bob tro i iaith homoffobaidd yn eu clyw. Mae cyfanswm o **30 y cant** o ddisgyblion lesbiaidd a hoyw yn dweud bod oedolion wedi bod yn gyfrifol am eu bwlio. Nid yw **tri** o bob pum disgybl yn gwneud cwyn am ddigwyddiad homoffobaidd. Os ydynt yn dweud wrth athro, nid oes unrhyw beth yn cael ei wneud mewn **62 y cant** o achosion.

Mae angen hyfforddiant ar staff ysgol i'w cynorthwyo i ymateb i, ac i atal, bwlio homoffobaidd a chefnogi disgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol. Pan fo staff yn ymateb i ddigwyddiadau, mae disgyblion dros **dair gwaith** yn fwy tebygol o deimlo bod eu hysgolion yn amgylchedd agored a goddefgar.

## 5 Darparu gwybodaeth a chefnogaeth

Nid oes gan **bedwar o bob pum** person ifanc hoyw fynediad yn yr ysgol at adnoddau priodol i'w cynorthwyo i gadw'n iach. Nid oes llyfrau yn y llyfrgelloedd ac nid oes mynediad at ofod ar y we. **15 y cant yn unig** sy'n mynychu grŵp ieuenctid lleol, ond mae bron i ddau o bob pump wedi mynychu clwb neu dafarn. Mae pobl ifanc lesbiaidd a hoyw **ddwywaith a hanner** yn fwy tebygol o fynychu clwb neu dafarn hoyw na grŵp ieuenctid.

Mae gan ysgolion gyfrifoldeb i gynorthwyo pob person ifanc i fod yn ddiogel, ac i gymryd risg iach wrth dyfu. Yn aml, nid yw disgyblion ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn derbyn y gefnogaeth hon. Dylai ysgolion sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad at y wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol.



## 6 Cynnwys cyfeiriadedd rhywiol yn y cwricwlwm

Nid yw tri chwarter y bobl ifanc hoyw sy'n dioddef bwlio homoffobaidd wedi clywed unrhyw drafodaeth am bobl na materion lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn yr ysgol. Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw sydd wedi eu haddysgu am faterion hoyw **13 y cant** yn llai tebygol o ddioddef bwlio homoffobaidd. Mae disgyblion sydd wedi eu haddysgu mewn ffordd gadarnhaol am faterion hoyw **60 y cant** yn fwy tebygol o deimlo'n hapus yn yr ysgol.

Mae angen i ysgolion ystyried ffyrdd o gynnwys cyfeiriadedd rhywiol yn y cwricwlwm, mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol, sy'n galluogi disgyblion heterorywiol a hoyw i ddeall a pharchu gwahaniaeth ac amrywiaeth

## 7 Defnyddio profiad allanol

Mae **pymtheg y cant** o bobl ifanc lesbiaidd a hoyw yn mynychu grŵp ieuenctid hoyw. Mae'r rhai sy'n mynychu grŵp yn fwy tebygol o deimlo bod modd siarad gydag oedolyn yn y cartref a'r ysgol am fod yn hoyw.

Gall sefydliadau lesbiaidd, hoyw a deurywiol ddarparu cefnogaeth i ysgolion a phobl ifanc er mwyn cynorthwyo disgyblion lesbiaidd a hoyw i deimlo'n fwy cadarnhaol a'u bod yn cael eu cynnwys yn eu cymuned. Gall cydweithio gyda chyrff megis awdurdodau lleol hefyd gynorthwyo ysgolion i gefnogi unigolion a dosbarthiadau er mwyn atal bwlio homoffobaidd.

## 8 Esiamplau da

Mae dros **60 y cant** o bobl ifanc lesbiaidd a hoyw yn teimlo nad oes modd trafod bod yn hoyw gydag oedolyn yn y cartref na'r ysgol. Mae **tri o bob deg** yn adnabod athro hoyw, ac felly **72 y cant** yn fwy tebygol o drafod bod yn hoyw gydag oedolyn yn yr ysgol.

Gall modelau rôl cadarnhaol gynorthwyo person ifanc i deimlo'n fwy hyderus a chysurus. Mae athrawon hoyw mewn sefyllfa gref i gyflawni'r swyddogaeth hon, gyda chefnogaeth eu hysgolion.

## 9 Peidio rhagdybio

Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw yn dweud eu bod yn dioddef bwlio homoffobaidd hyd yn oed os nad ydynt 'allan' yn yr ysgol – mae **98 y cant** yn clywed "mae mor gay" neu "ti mor gay" yn rheolaidd.

Nid yw pob person hoyw'r un fath, ac ni fydd pob un yn cael yr un profiad. Nid yw pob rhiant, llywodraethwr nac athro yn heterorywiol, ac ni fydd pob disgybl yn tyfu i fod yn heterorywiol.

## 10 Dathlu llwyddiannau

Rhaid cydnabod a dathlu cynnydd er mwyn i bob disgybl, rhiant, llywodraethwr a staff wybod a deall bod cynnydd yn digwydd. Bydd dathlu llwyddiannau hefyd yn gadael i ysgolion eraill ddysgu - mae **chwarter** y disgyblion yn mynychu ysgolion sy'n datgan yn glir bod bwlio homoffobaidd yn annerbyniol, ac mae hyn yn gostwng lefel bwlio o'r fath.

Gall yr ysgolion hyn helpu ysgolion eraill. Mae disgyblion lesbiaidd a hoyw yn teimlo'n fwy cysurus yn yr ysgol os ydynt yn gwybod bod polisi clir am fwlio homoffobaidd, os oes adnoddau mewn ysgol, os ydynt yn adnabod athro hoyw, ac os oes ganddynt rywun i siarad gyda hwy yn yr ysgol.

# **YR ADRODDIAD** YSGOL

"Mae pobl yn galw enwau o hyd yn yr ysgol, yn arbennig pwff a ffagot. Maen nhw'n rhwygo fy eiddo, neu'n ysgrifennu arno, neu'n ei ddwyn o hyd."

**Alan, 13, ysgol uwchradd (yr Alban)**

"Nodiadau hyll yn cael eu pasio yn y dosbarth. Y merched eraill yn gwrthod gadael i mi newid ar gyfer chwaraeon yn yr un ystafell â nhw."

**Kirsty, 17, ysgol annibynnol i ferched (Llundain Fwyaf)**

Stonewall CYMRU

addysg i bawb